
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr Camau Gweithredu – 2025-2026

# Ynni Adnewyddadwy ar y môr yng Nghymru



# Cynnwys


**Rhagair** **5**

**Crynodeb Gweithredol** **6**

**1. Cyflwyniad a Chyd-destun** **13**

1.1 Cefndir 13

1.2 Trosolwg o'r Cynllun Gweithredu 14

**2. Creu Marchnad** **15**

2.1 Esboniad 15

2.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 15

**3. Enabling Environment** **19**

3.1 Esboniad 19

3.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 19

**4. Cyllid** **22**

4.1 Esboniad 22

4.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 22

**5. Porthladdoedd** **24**

5.1 Esboniad 24

5.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 24

**6. Y Gadwyn Gyflenwi a Chlystyrau** **27**

6.1 Esboniad 27

6.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 29

**7. Sylfeini ac Is-strwythurau** **31**

7.1 Esboniad 31

7.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 31

**8. Sgiliau** **32**

8.1 Esboniad 32

8.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau 34

**9. Gweithredu** **36**

**10. Cyfathrebu'r Cynllun hwn** **37**

10.1 Esboniad 37

10.2 Camau Gweithredu 37

**Atodiad A: Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr** **36**

# Rhagair



Ar 7 Ionawr 2025, cyhoeddais fanylion y grŵp gorchwyl a gorffen gwynt ar y môr a sefydlais i'n helpu, gyda'u harbenigedd, i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Gymru yn sgil mwy na 15 GW o brosiectau gwynt ar y môr sy'n mynd rhagddynt o amgylch ein harfordir, yn nyfroedd Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Nod y grŵp oedd rhoi cyfeiriad i ddenu gwerth economaidd parhaol i Gymru drwy sicrhau bod y cyfleoedd cywir yn cael eu nodi a'u dilyn.

Mae gennym weledigaeth ar gyfer gwynt ar y môr sy'n cefnogi diogelwch ynni'r DU ac yn galluogi economi gynaliadwy yng Nghymru sy'n seiliedig ar ddarparu swyddi a thwf gwyrdd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Yn ôl adroddiad diweddaraf 'Cyflwr y Sector' gan Ynni Môr Cymru, mae ffermydd gwynt arnofiol ar y môr eisoes wedi darparu £21.2 miliwn i economi Cymru a disgwylir i hyn dyfu'n sylweddol oherwydd datblygiad y prosiectau profi ac arddangos yn y Môr Celtaidd a phiblinell fasnachol fwy sydd wedi'i chadarnhau gan Ystad y Goron. Nododd asesiad Ystad y Goron ei hun yn yr adroddiad 'Celtic Sea Blueprint' y gallai cyflwyno'r tair fferm wynt ar y môr arnofiol fasnachol gyntaf yn y môr Celtaidd ddarparu £1.4 biliwn y flwyddyn i economi'r DU a chynnal mwy na 5,000 o swyddi dros bum mlynedd. Yn ogystal, yn ei Rhaglen Cynyddu Capasiti, mae Ystad y Goron wedi ychwanegu 4.7GW pellach posibl at brydlesi presennol gwely'r môr sy'n cynnwys datblygiad gwynt ar y môr sefydlog Awel y Môr ger Ynys Môn.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ddogfen hon. Fel y dywedais yn glir ym mis Ionawr, nid yw hwn yn adroddiad arall ar gyfleoedd neu heriau lefel uchel i Gymru. Mae'n gynllun sy'n nodi'r camau gweithredu clir sy'n ofynnol i wireddu'r cyfleoedd hynny a mynd i'r afael â heriau ar draws sectorau a rhanddeiliaid perthnasol yn economi Cymru.

Mae'r cynllun hwn yn dod ag ymdrechion ar y cyd gan arweinwyr sectorau ledled Cymru at ei gilydd gan gwmpasu datblygwyr, porthladdoedd, gweithgynhyrchu (gan gynnwys y dur a'r concrit i gynnal is-strwythurau ffermydd gwynt arnofiol posibl ar y môr), y gadwyn gyflenwi a sgiliau. Hoffwn ddiolch yn bersonol iddynt i gyd am eu cyfraniad at y cynllun hwn. Mae'n darparu set o gamau gweithredu a fydd, yn ein barn ni, yn ein gosod ar y llwybr cywir i wireddu potensial llawn gwynt ar y môr i Gymru a'r DU ehangach.

Yr hyn sy'n allweddol nawr yw gweithredu, a dyna pam, fel cam gweithredu cynnar iawn o'r cynllun, rwy'n sefydlu tîm gweithredu i fwrw ymlaen â'r cyflawni.



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

# Crynodeb Gweithredol

## 1. Cyflwyniad

Mae'r sector gwynt ar y môr yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gysoni polisi porthladdoedd, dur, concrit ac ynni er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol gros, swyddi a ffyniant sylweddol ar gyfer rhanbarthau diwydiannol yng Nghymru. Mae gan y chwyldro diwydiannol gwyrdd hwn y potensial i greu etifeddiaeth barhaol ar gyfer yr economi a chymunedau y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn falch ohoni.

Amcangyfrifir bod maint y cyfle gwynt ar y môr yng Nghymru tua £32 bn. Yn y tymor canolig, mae maint y buddiannau posibl o wynt arnofiol ar y môr (FLOW) yn y Môr Celtaidd yn arwyddocaol iawn - amcangyfrifir ei fod gyfwerth ag o leiaf 4,200 o swyddi o ansawdd uchel a £1.4 bn o werth ychwanegol gros (yn seiliedig ar fuddsoddi mewn porthladdoedd integreiddio, cynnull a chydosod, ceblau, angorfeydd ac angorau)[1]. Gallai'r buddiannau hyn gynnwys swyddi cydosod ac integreiddio, gweithrediadau a chynnal a chadw; swyddi yn y gadwyn gyflenwi eilaidd; datblygu sgiliau sy'n cefnogi sefydliadau Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) lleol; a'r buddiannau economaidd ehangach sy'n mynd law yn llaw â'r elfennau hynny. Mae hyn yn seiliedig ar ddefnydd cychwynnol o 4.5GW erbyn 2035 yn y Môr Celtaidd. Nododd adroddiad Dyfodol Gwynt ar y Môr gan Ystad y Goron gynlluniau i ddod â 20-30 gigawat ychwanegol o gyfle prydlesu gwynt ar y môr y DU i'r farchnad erbyn 2030. Amlinellodd botensial gofodol ar gyfer hyd at 12 gigawat o gapasiti newydd yn y Môr Celtaidd (y tu hwnt i Rownd Prydlesu 5).

Mae gwynt ar y môr gwaelod sefydlog, yn bennaf yng Ngogledd Cymru[2] (lle mae 726MW wedi'i gomisiynu'n llawn), eisoes yn cyflogi tua 240 o bobl ym Mhorthladd Mostyn ac mae wedi sicrhau buddiannau economaidd ehangach dros y 10 mlynedd diwethaf. Disgwylir i brosiectau yn y dyfodol, y mae rhai ohonynt ar gam datblygedig, gyflawni buddsoddiad pellach gyda buddiannau cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros cysylltiedig[3] [4] [5].

Yn ogystal, mae marchnadoedd allforio sylweddol ar gyfer Gwynt ar y Môr y gallai sefydliadau yng Nghymru fynd i'r afael â nhw, er enghraifft, amrywiol ddatblygiadau gwynt ar y môr sefydlog ac arnofiol oddi ar arfordir dwyreiniol Iwerddon, datblygu rhannau Iwerddon o'r Môr Celtaidd a datblygiadau oddi ar arfordir Ffrainc. Mae'r rhain yn ychwanegol at gyfleoedd i fusnesau Cymru ym marchnad ehangach y DU.

1 Celtic Sea Blueprint – Ystad y Goron, Hydref 2023
2 potensial-ar-gyfer-ynni-gwynt-ar-y-mor-yn-y-dyfodol.pdf
3 8.73_D8_AyM_ES_Volume_3_Chapter_3_Socioeconomics_RevD
4 Templed adroddiad RPS enghreifftiol
5 Unleashing the full value of Welsh renewables

## 2. Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr

Nod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (y Grŵp) oedd nodi pa gamau gweithredu pendant, ymarferol sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau i'r eithaf:

- Lleoli ffermydd Gwynt ar y Môr yn nyfroedd Cymru neu'n agos atynt yn llwyddiannus.
- Y buddiannau a ddaw i Gymru drwy'r lleoliadau hyn – o ran swyddi a'r gwerth economaidd ychwanegol ehangach drwy greu busnesau llwyddiannus a chynaliadwy.

Mae'r cwmpas yn cynnwys Gwynt ar y Môr sefydlog ac arnofiol. Darperir aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp yn y prif adroddiad.

Mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y grŵp.

## 3. Camau Gweithredu Hanfodol a Dibyniaethau

Y negeseuon allweddol, a ailadroddwyd o bob rhan o'r sector Gwynt ar y Môr, oedd am sicrwydd a sefydlogrwydd. Hynny yw:

- **Sicrwydd y farchnad** – o lif hirdymor o brosiectau a dulliau cymorth refeniw digonol parhaus i wneud y prosiectau hynny'n rhai sicr/y gellir buddsoddi ynddynt.
- **Sefydlogrwydd** – o ran cymorth gwleidyddol parhaus ac amgylchedd polisi galluogi sy'n caniatáu i brosiectau gael eu datblygu drwy brosesau rheoleiddio symlach gydag adnoddau da.

Nid yw pob un o'r elfennau sy'n galluogi'r ffactorau hyn o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae camau gweithredu hanfodol y gall Llywodraeth Cymru (LlC) eu cymryd yn y ddau faes naill ai'n anuniongyrchol (gan weithio gyda LlDU ac eraill) neu'n uniongyrchol, a all helpu i greu sicrwydd y farchnad a'r amgylchedd galluogi sydd eu hangen i sicrhau llwyddiant prosiectau Gwynt ar y Môr sefydlog ac arnofiol a dod â gwerth i Gymru. Nodir y rhain isod, ochr yn ochr â'r dibyniaethau cysylltiedig.

Yn ogystal, mae gan LlC rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu amgylchedd buddsoddi cefnogol ar gyfer seilwaith porthladdoedd a'r gadwyn gyflenwi i sicrhau llwyddiant. Unwaith eto, nodir y rhain isod.



| Cam gweithredu | Perchennog[6] | Amseru | Dibyniaeth |
|---|---|---|---|
| Yn gyson â'r Map Llwybr Cyflenwi Morol a'r SSEP rhannu yn amserol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl Rownd Prydlesu 5), gweledEdd rowndiau prydlesu gwely'r môr yn y dyfodol â'r farchnad. Dylai prydlesu yn y dyfodol hefyd gynnwys technolegau lluosog (arnofiol neu sylfaen sefydlog dŵr dwfn) – adran 2.2.1. Hefyd wedi'i gymeradwyo'n gryf gan borthladdoedd yn adran 5. | YYG | | Cwblhau Prydlesu Rownd 5 |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda DESNZ a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod paramedrau ar gyfer Contract ar gyfer Gwahaniaeth sydd ar waith ar gyfer Rowndiau Dyrannu yn y dyfodol yn cael eu pennu'n briodol i gynyddu'r tebygolrwydd o'r llwyddiant mwyaf posibl i brosiectau, gan gynnwys prosiectau arnofiol a sefydlog, yn nyfroedd Cymru ac ar draws gweddill y DU, er mwyn sicrhau marchnad ar gyfer porthladdoedd a'r gadwyn gyflenwi i werthu iddi. Bydd hyn yn cynnwys mewnbwn i feysydd ategol fel cynlluniau Bonws Diwydiant Glân (BDG) – adran 2.2.2 | LlC | Nawr ac yn barhaus | DSNZ/Proses Rownd Dyrannu a BDG |
| Sefydlu 'Fforwm Rownd 5' – 3.2.1 | YYG | Hydref 2025 | Cwblhau Prydlesu Rownd 5 |
| Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ffurfio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r datblygwyr gwynt ar y môr i sicrhau mwy o fuddiannau sy'n aros yng Nghymru – adran 3.2.1 | LlC | Parhaus | Wrth i brosiectau sefydlog Gwynt ar y Môr ddatblygu |
| (Parhau â gwaith yr is-grŵp cynllunio/cydsynio) i sefydlu golwg hirdymor o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau newydd gwynt ar y môr, gan ystyried gofynion caniatâd seilwaith ehangach, gan gynnwys porthladdoedd - adran 3.2.1 (sy'n cynnwys manylion yr ardaloedd a gwmpesir) Unwaith eto, cymeradwywyd hyn yn gryf gan borthladdoedd yn adran 5 | LlC | Diwedd mis Gorffennaf 2025 | YYG – llif o brosiectau tebygol |

6 Defnyddir talfyriadau yma i arbed lle: LlC – Llywodraeth Cymru; YYG – Ystad y Goron; NESO – Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni; GFI – Green Finance Institute; BDC – Banc Datblygu Cymru

| Cam gweithredu | Perchennog[6] | Amseru | Dibyniaeth |
|---|---|---|---|
| Datblygu a gwneud achos dros Gymru i chwarae rhan sylweddol yn y dirwedd arloesi gwynt ar y môr sy'n datblygu, gan gynnwys y cysyniadau arfaethedig WinDD ac ATTI a nodir yn yr IGP (gan adeiladu ar gyfleusterau presennol), yn ogystal ag arloesi gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi ehangach – adran 3.2.1 | LlC | Haf tan ddiwedd Ch4 2025 | |
| Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a'r holl awdurdodau cynllunio perthnasol arwain diwrnod 'Cwrdd â'r Rheoleiddiwr' ar gyfer yr holl brosiectau gwynt ar y môr mawr ar y cam cychwynnol – adran 3.2.1 | LlC i gydlynu hyn | Ch4 2025 ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru a rheoleiddwyr eraill y DU |
| LlC i weithio gyda GFI, DBW, y Gronfa Gyfoeth Wladol, Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban, Ystad y Goron a GB Energy a phartïon perthnasol eraill i gynnal dadansoddiad o'r bylchau a fydd yn egluro'r mathau penodol o gymorth cyllid sydd eu hangen i ddenu contractwyr a thyfu'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig yng Nghymru fel y gall Cymru ddenu, tyfu ac ymgorffori buddiannau datblygiadau gwynt ar y môr – adran 4.2 (sy'n cynnwys meysydd manwl i'w hystyried)<br><br>**Camau gweithredu cadwyni cyflenwi cysylltiedig:**<br><br>Archwilio dulliau o fynd i'r afael â thelerau ac amodau ymgysylltu cytundebol i gysoni'r risg a'r wobr yn well – adran 6.2<br><br>Cefnogi gweithredu technoleg ar gyfer gweithgynhyrchu busnesau bach a chanolig i wella cystadleurwydd – adran 6.2 | LlC, GFI DBW ac eraill | Mis Mehefin i fis Tachwedd 2025 | |
| LlC i sefydlu paramedrau pecyn a fyddai'n annog buddsoddiad gan gontractwyr mewn swyddogaethau a chyfleusterau sy'n ychwanegu gwerth yng Nghymru (gweler adran 4.2 am ragor o fanylion) – adran 4.2 | LlC | Ch4 2025 | Cam gweithredu blaenorol |
| Ceisio cytundeb gan LlDU/DSNZ ar gyfer cynhyrchion ariannol (grant adenilladwy a benthyciad pontio) sy'n gysylltiedig â defnydd a ddatblygwyd gan y GFI, a'u lansio'n gynnar – adran 5.2 | LlC | Ch3 2025 | |

| Cam gweithredu | Perchennog[6] | Amseru | Dibyniaeth |
|---|---|---|---|
| Datblygu a chwblhau Prosbectws Porthladdoedd Cymru ar gyfer Gwynt ar y Môr – adran 5.2 | Porthlad-doedd/LlC | Haf 2025 | |
| Dylai Ystad y Goron barhau i ystyried porthladdoedd Cymru mewn penderfyniadau buddsoddi posibl yn y dyfodol a rhaglenni cefnogi e.e. Cronfa Cyflymu'r Gadwyn Gyflenwi a'r £400 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin – adran 5.2 | YYG/ports | Parhaus | |
| Cefnogi prosiectau profi ac arddangos gwynt y môr mewn dyfnderoedd a phorthladdoedd lleol mewn trafodaethau i alluogi datblygwyr i ymgymryd ag integreiddio ym mhorthladdoedd Cymru – adran 5.2 | LlC | Hydref 2025 i haf 2026 | Llwyddiant ar gyfer prosiectau profi ac arddangos yn AR7 |
| Denu contractwr haen 1/EPCI i Gymru i weithio'n agos gyda chadwyn gyflenwi Cymru a chreu ecosystem fwy o gwmnïau – adran 6.2 | LlC | Nawr | |

Yn ogystal, mae cyfleoedd allweddol i LlC a LlDU weithio gyda'i gilydd i wireddu uchelgeisiau IGP i'r DU gymryd arweiniad ym maes Sylfeini ac Is-strwythur, yn arbennig:

- Mae'r Grŵp yn galw ar y Strategaeth Ddur arfaethedig i gydnabod y cyfleoedd i ddur y DU gael ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu gwynt ar y môr a seilwaith ynni a sifil cysylltiedig. Rhaid cydnabod y cyfle penodol i integreiddio'r gadwyn gyflenwi dur â'r cyfleoedd integreiddio a chydosod ym mhorthladd Port Talbot gyda llywodraethau sy'n barod i gefnogi'r sector i gyflawni.
- Mae'r sector concrit ac agregau mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sylfeini concrit sydd â chapasiti yng ngogledd a de Cymru yn ddigon agos at borthladdoedd i gefnogi'r sector FLOW. Rydym yn galw ar lywodraethau i weithio mewn partneriaeth â'r sector i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn pe bai sylfeini concrit yn dechnoleg a ffefrir i ddatblygwyr.
- Rydym yn cydnabod bod gan gynnig dur Cymru a'r DU elfennau coll – yn y bôn gweithgynhyrchu platiau, fel y nodwyd yn adroddiadau'r Bil Gwaith[7] – sy'n cyfyngu ar dreiddiad yn y segment busnes gwynt ar y môr. Rydym yn annog y Strategaeth Ddur i ystyried bylchau o'r fath ac, ar ôl ei chyhoeddi, dangos lle y gall Cymru gefnogi elfennau a galluoedd y 'Bil Gwaith' orau.
- Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gydag LlDU i gefnogi'r sectorau dur a choncrit. Er enghraifft – ystyried a oes angen strategaeth concrit ar lefel LlDU.

7 Gweler wefan Dur Prydain am fanylion. – 'UK Steel – Home of the UK Steel Industry'

## 4. Camau Gweithredu Eraill a Dibyniaethau

Mae'r camau gweithredu isod hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig i wireddu buddiannau'r sector yn llawn, ond maent yn llai brys na'r rhai uchod neu mae angen eu hymgorffori mewn gweithgareddau busnes fel arfer parhaus.

| Cam gweithredu | Perchennog | Amseru | Dibyniaeth |
|---|---|---|---|
| Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i'w hysbysu am gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi yn y dyfodol ac ar y Map Llwybr Cyflenwi Morol i gefnogi cynllunio morol, natur a chyflawni prosiectau yn nyfroedd Cymru – adran 2.2.1 | YYG LIC | Parhaus | |
| Y NESO i ymgynghori'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill drwy'r strwythur llywodraethu a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau strategol – adran 3.2.2 | NESO | Parhaus | |
| Y NESO i sicrhau cydnawsedd a chysondeb â chynlluniau gofodol presennol, gan gynnwys Cynlluniau Morol statudol a grëwyd gan Lywodraeth Cymru – adran 3.2.2 | NESO | Parhaus | |
| Yn dilyn cyhoeddi a chymeradwyo'r SSEP, mae angen i Lywodraeth Cymru archwilio'r berthynas rhwng y SSEP a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a, lle y bo'n briodol, ymgorffori'r SSEP mewn fersiynau o'r cynlluniau hynny yn y dyfodol – adran 3.2.2 | LIC | I'w gadarnhau | Cyhoeddi'r SSEP |
| Bydd y porthladdoedd sydd eisoes â chydsyniadau yn parhau â'r gwaith i naill ai ddatblygu eu seilwaith neu gadarnhau'r amserlen ar gyfer y datblygiad hwnnw, i ddarparu sicrwydd ar amserlenni ar gyfer datblygwyr Gwynt ar y Môr sefydlog – adran 5.2 | Porthlad-doedd | Parhaus | |
| (Parhau i) Gymell gofynion ar gyfer cynnwys mewn porthladdoedd lleol (o fewn prosesau prydlesu, BDG a Chontract ar gyfer Gwahaniaeth) – adran 5.2 | LlDU/YYG | Parhaus | |

| Cam gweithredu | Perchennog | Amseru | Dibyniaeth |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer y cwmnïau lleol sydd wedi'u hachredu gan BDG yng Nghymru i'w gwneud yn fwy deniadol i ddatblygwyr prosiectau Gwynt ar y Môr – adran 6.2 | LIC | Nawr ac yn barhaus | |
| Cynnal/cynnull sesiynau datblygu gyda'r cyflenwyr llwyddiannus Rownd Prydlesu 5 i hyrwyddo cydweithio a goresgyn heriau maint – adran 6.2 | LIC | I'w gadarnhau | |
| Gweithio'n strategol gyda'r gadwyn gyflenwi a chlystyrau Gwynt ar y Môr yng Nghymru i ddenu cyfran uwch o wariant yn y sector Gwynt ar y Môr, gydag ymrwymiad gan y datblygwyr – adran 6.2 | LIC | Parhaus | |
| Cydweithio ag Ystad y Goron i gynyddu'r cymorth ar gyfer y gadwyn gyflenwi drwy raglenni cyllido presennol – adran 6.2 | LIC | Nawr ac yn barhaus | |
| Cynnal adolygiad busnes i archwilio cyfleoedd datgomisiynu ac adbweru ar asedau presennol ac asedau yn y dyfodol – adran 6.2 | LIC | Ch3/Ch4 2025 | |

## 5. Sgiliau

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y sgiliau cywir ar gael – o ran gallu a chapasiti – i gefnogi'r sector Gwynt ar y Môr wrth symud ymlaen. Mae'r rhain o reidrwydd yn dibynnu ar lawer o'r camau gweithredu blaenorol ac mae ganddynt gyfnod rhagarweiniol hirach. Felly bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r sector sgiliau drwy'r is-grŵp Sgiliau sefydledig er mwyn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu manwl a nodir yn adran 8 o'r adroddiad hwn (gweler hefyd Gweithredu isod).

## 6. Gweithredu

Hoffai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i gydnabod yr ymrwymiad amser a'r ymdrech a roddwyd gan aelodau'r Grŵp dros y pum mis diwethaf. Diolch i bawb a gymerodd ran.

Rydym yn cydnabod mai'r allwedd i'r cynllun hwn yw sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd yn cael eu gweithredu. Felly bydd LlC yn sefydlu tîm gweithredu (enw i'w gadarnhau) i barhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, parhau â gwaith is-grwpiau megis ar gyfer Cydsynio a Chynllunio a Sgiliau.

# 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Diben y ddogfen hon yw cofnodi'r camau gweithredu a ddatblygwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr (y Grŵp) Llywodraeth Cymru.

Nod y Grŵp oedd nodi pa gamau gweithredu pendant, ymarferol sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau i'r eithaf:

- Lleoli ffermydd Gwynt ar y Môr yn nyfroedd Cymru neu'n agos atynt yn llwyddiannus.
- Y buddiannau a ddaw i Gymru drwy'r lleoliadau hyn – o ran swyddi a'r gwerth economaidd ychwanegol ehangach.

Mae'r cwmpas yn cynnwys Gwynt ar y Môr sefydlog ac arnofiol (FLOW).

## 1.1 Cefndir

Cyhoeddwyd y Grŵp yn ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn datganiad llafar ar 7 Ionawr 2025[8].

Prif nodau'r Grŵp yw nodi'r camau gweithredu penodol a phendant a fydd yn helpu i sicrhau bod y prosiectau gwynt ar y môr sefydlog a FLOW oddi ar arfordir Cymru neu ger arfordir Cymru yn llwyddiannus ac yn darparu swyddi a gwerth economaidd parhaol i bobl Cymru.

Mae aelodaeth y grŵp wedi'i gynllunio i ddod â safbwyntiau lluosog o bob rhan o'r sector ynghyd ac mae'n cynnwys:

**Cydlynydd grŵp Gorchwyl a Gorffen:** Tim Pick, cyn-Eiriolwr Gwynt ar y Môr y DU a Chadeirydd, Partneriaeth Twf Gwynt ar y Môr.

**Arweinydd sector y diwydiant Adnewyddadwy:**

— Cyfarwyddwr Portffolio Grŵp Gwynt ar y Môr Simply Blue.

— Ajai Ahluwalia – Pennaeth Cadwyn Gyflenwi RenewableUK.

**Porthladdoedd sy'n arwain y sector:**

— Tom Sawyer – Prif Swyddog Gweithredol porthladd Aberdaugleddau.

— Ashley Curnow yn cynrychioli Henrik Pedersen – Prif Swyddog Gweithredol ABP.

**Arweinwyr y Sector Diwydiant a'r gadwyn gyflenwi:**

— Nick Revell, MD – Rheolwr Gyfarwyddwr – Ledwood Manufacturing.

— Mike Gillard yn cynrychioli Jen Baxter – Prif Swyddog Gweithredol Diwydiant Cymru.

**Arweinwyr y Sector Sgiliau:**

— Paul Flanagan – Pennaeth Coleg Llandrillo.

**Meysydd Cefnogi:**

— Rebecca Williams – Cyfarwyddwr y Gwledydd Datganoledig – Ystad y Goron.

— Luciana Ciubotariu – Prif Swyddog Gweithredol Porthladd Rhydd Celtaidd.

— Dr Rhian-Mari Thomas – Prif Swyddog Gweithredol Green Finance Institute.

— Aled Rowlands yn cynrychioli Julian Leslie – Prif Beiriannydd, Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni.

— David Tudor – Cadeirydd Grŵp Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru.

— Liz Dunn – Partner Burges Salmon.

Mae'r Grŵp wedi cael cefnogaeth gan swyddogion o bob rhan o'r llywodraeth gan gynnwys, is-adrannau ynni a'r economi, cynllunio a chydsynio morol, cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddfa Cymru.

Ceir Cylch Gorchwyl llawn y Grŵp yn Atodiad A.

8 Gweler: Datganiad Llafar: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr (7 Ionawr 2025) | LLYW.CYMRU

## 1.2 Trosolwg o'r Cynllun Gweithredu

Datblygwyd y cynllun gweithredu yn wreiddiol ar draws nifer o 'lonydd nofio' sy'n dangos gweithgareddau cyfochrog a rhyng-ddibynnol ar draws gwahanol benawdau yn y cyfnod o fis Mai 2025 i ddiwedd mis Rhagfyr 2026. Mae'r penawdau a ddefnyddir yng ngweddill yr adroddiad hwn yn deillio o'r lonydd nofio hynny, sef:

- Creu Marchnad
- Amgylchedd Galluogi
- Cyllid
- Porthladdoedd
- Y Gadwyn Gyflenwi a Chlystyrau
- Sylfeini ac Is-strwythurau
- Sgiliau

Yn ogystal, ceir adrannau ar wahân yn yr adroddiad hwn sy'n ymdrin â Chyfathrebu a Gweithredu.

Roedd y cynllun lôn nofio cyffredinol o reidrwydd yn gymhleth o ystyried y nifer mawr o weithgareddau a gweithredoedd sy'n digwydd ar draws pob lôn nofio, ond roedd yn ddefnyddiol o ran helpu i nodi'r dibyniaethau rhwng gwahanol weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr adrannau perthnasol isod. Bydd y cynllun yn cael ei gynnal yn barhaus gan y tîm gweithredu (gweler adran 9).

Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi rhagor o fanylion ar gyfer pob un o'r penawdau uchod gan nodi:

- Y camau gweithredu newydd a nodwyd gan y Grŵp
- Y gwaith perthnasol presennol sydd eisoes ar y gweill
- Y dibyniaethau rhwng y ddau hynny.



# 2. Creu Marchnad

## 2.1 Esboniad

Mae 'creu marchnad' yn cyfeirio at y gweithgareddau hynny sy'n helpu i greu galw am gynhyrchion a gwasanaethau Gwynt ar y Môr; mae'r chwaraewyr allweddol a'u rolau yn cynnwys:

- **Ystad y Goron:** mae'n chwarae rôl allweddol yn y farchnad ar gyfer gwynt ar y môr drwy brydlesu ardaloedd gwely'r môr, darparu cynllunio gofodol drwy'r Map Llwybr Cyflenwi Morol a phrosiectau dadrisgio i gefnogi nodau Sero Net a Diogelwch Ynni.
- **Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ):** galluogi cymorth refeniw drwy Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD) sy'n darparu sicrwydd pris ar gyfer unrhyw drydan a gynhyrchir am gyfnod o 15 mlynedd (ac o bosibl yn hirach, yn amodol ar ganlyniad ymgyngoriadau parhaus).
- **Datblygwyr prosiectau:** cymryd rhan mewn gweithgarwch datblygu unwaith y byddant wedi cynnig yn llwyddiannus am brydles gwely'r môr, ac, ar ôl cynnig llwyddiannus am Gontract ar gyfer Gwahaniaeth, rhoi contractau ar waith i adeiladu eu prosiectau (gyda phorthladdoedd, gweithgynhyrchwyr, y gadwyn gyflenwi ehangach ac ati.).

**Un o'r negeseuon allweddol, a ailadroddwyd o bob rhan o'r sector Gwynt ar y Môr, oedd am sicrwydd a sefydlogrwydd. Wrth greu marchnad, mae hyn yn golygu:**

- Sicrwydd o lif o brosiectau (a dulliau cysylltiedig o annog defnydd o'r gadwyn gyflenwi leol a phorthladdoedd), drwy rowndiau prydlesu gwely'r môr yn y dyfodol, y tu hwnt i Rownd Prydlesu 5 bresennol; Gallai hyn fod drwy amserlen glir o pryd y bydd rowndiau yn y dyfodol yn debygol o gael eu cynnal a faint a'r math o gapasiti a ddisgwylir.
- Cymorth refeniw parhaus yn y dyfodol: rowndiau dyrannu Contract ar gyfer Gwahaniaeth blynyddol, sy'n ddigonol i alluogi defnyddio capasiti uchaf prosiectau sefydlog ac arnofiol, gan sicrhau bod cydnabyddiaeth bod FLOW yn parhau i fod yn dechnoleg gymharol newydd ac felly yn gynnar yn y llwybr i leihau'r LCOE drwy brofiad gweithredol ymarferol ar raddfa[9].

Mae rôl barhaus hefyd i Lywodraethau a sefydliadau fel Ystad y Goron, i gydnabod yr arloesedd parhaus ar draws y sector sy'n golygu efallai na fydd technolegau newydd yn cyd-fynd yn gyfforddus o fewn diffiniadau presennol; er enghraifft, beth yw gwynt ar y môr arnofiol o gymharu â gwynt ar y môr sefydlog. Yr allwedd fydd sicrhau bod dulliau creu marchnad yn parhau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir wrth i'r farchnad ddatblygu.

## 2.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

### 2.2.1 Gweithio gydag Ystad y Goron:

Mae Ystad y Goron yn datgloi potensial gwely'r môr, y môr a'r arfordir i gefnogi trawsnewidiad y genedl i ddyfodol gwydn, cynaliadwy ac sydd wedi'i datgarboneiddio. Yng Ngogledd Cymru, mae Ystad y Goron wedi galluogi 0.73GW o gapasiti sefydlog gweithredol gyda chynlluniau ar gyfer 576 MW ychwanegol. Gallai cytundebau diweddar ddarparu 3.5GW arall, gan bweru 4.7 miliwn o gartrefi a darparu cyfle economaidd.

9 I roi hyn mewn cyd-destun, roedd mwy na 6 GW o Wynt ar y Môr gwaelod sefydlog wedi'i leoli yn y DU, a chontractiwyd 3-4 GW arall, cyn i bris taro Contract ar gyfer Gwahaniaeth ostwng o dan £100/MWh yn rownd ddyrannu 2

Mae'r Grŵp yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan Ystad y Goron ar ei Rhaglen[10] Cynyddu Capasiti a fydd yn ychwanegu 4.7GW pellach posibl at brydlesi presennol gwely'r môr ac yn cynnwys datblygiad Awel y Môr ger Ynys Môn.

Oddi ar arfordir De Cymru, mae datblygiad gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd yn gyfle i ddatblygu marchnad newydd mewn rhanbarth newydd gyda chyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol. Yn 2020, hwylusodd Ystad y Goron brosiectau Profi ac Arddangos FLOW cyntaf Cymru i hyrwyddo'r profion cynnar ar dechnoleg, y gadwyn gyflenwi a'r seilwaith rhanbarthol. Ar ôl 4 blynedd yn cydweithio â rhanddeiliaid a diwydiant, lansiwyd Rownd Prydlesu 5 ym mis Chwefror 2024 gan ganolbwyntio ar brydlesu 4.5GW cychwynnol o FLOW ar raddfa fasnachol yn y Môr Celtaidd. Disgwylir i Rownd Prydlesu 5 fod y cam cyntaf o ddatblygiad masnachol yn y Môr Celtaidd gyda'r Adroddiad Dyfodol Gwynt ar y Môr yn amlinellu potensial gofodol ar gyfer hyd at 12 gigawat o gapasiti newydd yn y Môr Celtaidd (y tu hwnt i Rownd Prydlesu 5).

- **Cam gweithredu:** cysoni â'r Map Llwybr Cyflenwi Morol a SSEP amserol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl Rownd Prydlesu 5), rhennir gweledigaeth rowndiau prydlesu gwely'r môr yn y dyfodol â'r farchnad. Dylai prydlesu yn y dyfodol hefyd gynnwys technolegau lluosog (arnofiol neu sylfaen sefydlog dŵr dwfn).

Mae Rownd Prydlesu 5 yn cynnal nifer o weithgareddau dadrisgio a chyflymu, gan gynnwys; Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel Cynllun ymlaen llaw ar y cyd â'r dyluniad gofodol; rhaglen fawr o arolygon technegol ac amgylcheddol cyn-gydsynio; a gweithio'n agos gyda'r Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni (NESO) drwy ddarparu gwybodaeth am ddylunio gofodol i lywio eu hargymhelliad ar gyfer dylunio grid. Mae'r Grŵp yn croesawu gweithgareddau i ddadrisgio a chyflymu datblygiad gwynt ar y môr.

Yn ogystal â phrydlesu gwely'r môr ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar y tir a ddaw yn sgil gwynt ar y môr, lluniodd Ystad y Goron Glasbrint y Môr Celtaidd sy'n anelu at nodi ac asesu'r gofynion sylfaenol o ran seilwaith a chadwyn gyflenwi ar gyfer y Môr Celtaidd sy'n cwmpasu porthladdoedd, llongau, ceblau allforio a sgiliau. Mae camau galluogi eraill yn cynnwys cefnogaeth i OWIC, clystyrau perthnasol i Gymru (Cynghrair Ynni ar y Môr a'r Môr Celtaidd), Y Cynllun Twf Diwydiannol a'r Prosbectws Twf Rhanbarthol a ryddhawyd yn ddiweddar.

Sefydlodd Ystad y Goron y rhaglen Cyflymu'r Gadwyn Gyflenwi gwerth £50 miliwn gyda'r nod penodol o helpu i symbylu capasiti cadwyn gyflenwi'r DU a'r gallu ar gyfer gwynt ar y môr. Mae'r dyraniad cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar y Glasbrint wedi darparu cyllid ar gyfer pedwar prosiect yng Nghymru, gan gynnwys: Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, Coleg Sir Benfro, Marine Power Systems, cwmni platfform gwynt ar y môr arnofiol yn Abertawe, a Tugdock Ltd, i sefydlu canolfan Gweithrediadau a Chynnal a Chadw ym Mhort Talbot.

- **Cam gweithredu:** Mae Ystad y Goron yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru drwy dynnu sylw at ddulliau ariannu cadwyni gyflenwi perthnasol yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy yr holl sectorau morol gan gynnwys gwynt ar y môr, mae Ystad y Goron yn datblygu'r Map Llwybr Cyflenwi Morol, sef cynllun cyflawni strategol ar gyfer gwely'r môr ac arfordir o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a all fodelu a mapio'r senarios defnydd posibl yn ddynamig dros y degawdau nesaf. Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth, bydd y Map Llwybr yn mapio'r defnydd gorau o wely'r môr a'r arfordir, gan ddangos pa fuddsoddiadau ynni, seilwaith a natur a allai ddigwydd a phryd, gan sicrhau'r canlyniadau gorau i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Nod y Map Llwybr yw cyflymu prosiectau ynni glân a sbarduno buddsoddiad

10 Rhaglen Cynyddu Capasiti | Ystad y Goron



yng nghadwyn gyflenwi a seilwaith y DU drwy ddarparu gwelededd, sicrwydd a rhagweladwyedd i fuddsoddwyr.

- **Cam gweithredu:** Mae Ystad y Goron yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar y Map Llwybr Cyflenwi Morol i gefnogi cynllunio morol, natur a chyflawni prosiectau yn nyfroedd Cymru.

Gweithgareddau allweddol Ystad y Goron y mae'r cynllun gweithredu yn dibynnu arnynt yw:

- Cwblhau Rownd Prydlesu 5 yn llwyddiannus[11]
- Fel y nodwyd uchod, cysoni â'r Map Llwybr Cyflenwi Morol a'r SSEP, gwelededd amserol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl Rownd Prydlesu 5), rowndiau prydlesu gwely'r môr yn y dyfodol.

## 2.2.2 DESNZ

Unwaith eto, mae yna weithgareddau allweddol y mae DESNZ yn eu cymryd y mae'r cynllun gweithredu hwn yn dibynnu arnynt:

- 2025/26 (amseru i'w gadarnhau) – cyhoeddi canlyniadau Rownd 7 Dyrannu Contract ar gyfer Gwahaniaeth
- Rhaid i LlDU (drwy DESNZ) fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo defnyddio FLOW yn gynnar drwy'r safleoedd Profi ac Arddangos ar draws daearyddiaethau, amodau môr a phatrymau tywydd amrywiol. Dylai LlDU geisio cefnogi'r holl brosiectau profi ac arddangos y gellir eu defnyddio'n gynnar
- LlDU – haf 2025: canlyniad yr adolygiad o wariant. Er bod hyn yn amlwg yn effeithio ar lywodraeth gyfan y DU, mae llawer o'r effeithiau yn debygol o gael eu teimlo'n fwyaf acíwt i'r sector Gwynt ar y Môr drwy DESNZ.

Y **cam gweithredu** allweddol yma yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda DESNZ a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod paramedrau ar gyfer Contract ar gyfer Gwahaniaeth sydd ar waith ar gyfer Rowndiau Dyrannu yn y dyfodol yn cael eu pennu'n briodol i gynyddu'r tebygolrwydd o'r llwyddiant i brosiectau, gan gynnwys arnofiol a sefydlog, yn nyfroedd Cymru ac ar draws gweddill y DU, er mwyn sicrhau marchnad ar gyfer porthladdoedd a'r gadwyn gyflenwi i werthu iddi. Bydd hyn yn cynnwys mewnbwn i feysydd ategol fel cynlluniau Bonws Diwydiant Glân (BDG).

## 2.2.3 Prosiectau:

Yn y pen draw, y prosiectau eu hunain sy'n creu'r galw am ddefnyddio porthladdoedd, gweithgynhyrchu, cadwyn gyflenwi a sgiliau. Fodd bynnag, mae agosrwydd porthladdoedd Cymru at nifer o farchnadoedd, nid yn unig y rhai oddi ar arfordir Cymru, yn golygu y dylai porthladdoedd a chadwyn gyflenwi Cymru hefyd edrych y tu hwnt i'w marchnadoedd uniongyrchol a cheisio allforio i farchnadoedd gwynt ar y môr yng ngweddill y DU, Iwerddon, Ffrainc a thu hwnt lle y bo hynny'n bosibl.

Fodd bynnag, mae gan y prosiectau eu hunain ddibyniaethau:

- Prosiectau Profi ac Arddangos FLOW – yn dibynnu ar ganlyniad Rownd Dyrannu 7 Contract ar gyfer Gwahaniaeth a rowndiau ocsiwn dilynol.
- Enillwyr Prydlesu FLOW Rownd 5: Haf/Hydref 2025 – wedi'u cyhoeddi.
- Mae gwynt sefydlog ar y môr yn farchnad sefydledig ac mae angen i ni fwrw ymlaen â'r prosiectau sydd eisoes wedi'u prydlesu ac sy'n cael eu datblygu yng ngogledd Cymru (fel Awel y Môr gan RWE) er mwyn parhau i dyfu'r economi forol ledled y rhanbarth. Yn ôl adroddiadau blaenorol a gwybodaeth a gyflwynwyd i'r prosesau archwilio, mae'r golled o ranbarth Gogledd Cymru yn sylweddol. Gwnaed llai nag 1% o'r buddsoddiad yng Ngogledd Cymru.

11 Mae'r Grwp gorchwyl yn croesawu'r cyhoeddiad a wnaed ar 19 Mehefin am y ddau brosiect ar gyfer y broses Rownd Prydlesu 5 – gweler New frontier for UK offshore wind with leading developers set to deliver new generation of floating windfarms

# 3. Amgylchedd Galluogi

## 3.1 Esboniad

Mae'r 'amgylchedd galluogi' wedi'i fwriadu i ddarparu'r amodau sy'n cefnogi ac yn sicrhau llwyddiant prosiectau gwynt ar y môr. Mae'n cynnwys:

- Yr ymrwymiad gwleidyddol hirdymor i'r diwydiant.
- Amgylchedd polisi cefnogol; er enghraifft, fframwaith a dull cydsynio a rheoleiddio clir sy'n seiliedig ar bolisi sy'n cefnogi datblygiad amserol prosiectau Gwynt ar y Môr drwy Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Seilwaith ategol fel argaeledd cysylltiadau grid wedi'u cynllunio, amserol fel y gall ffermydd gwynt gynnig i flynyddoedd cyflenwi priodol mewn Rowndiau Dyrannu Contract ar gyfer Gwahaniaeth ac allforio trydan unwaith y bydd y cynhyrchu wedi dechrau, drwy'r NESO.

Unwaith eto, y neges allweddol gan y sector yw sicrhau sefydlogrwydd y dirwedd polisi ac ymrwymiad parhaus i'r datblygiadau sefydlog a FLOW. Bydd hyn yn meithrin hyder buddsoddwyr a datblygwyr yn y DU a Chymru fel lleoedd da i wneud busnes.

## 3.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

### 3.2.1 Llywodraeth Cymru

Mae camau gweithredu ar gyfer LlC yn cynnwys camau gweithredu uniongyrchol ar gyfer meysydd o fewn ei phwerau (er enghraifft lle mae pwerau wedi'u datganoli) a chamau gweithredu anuniongyrchol, gan weithio gyda phartneriaid a'u hannog, lle mae pwerau yn gorwedd mewn mannau eraill. Dyma'r **camau gweithredu** allweddol:

- **Hydref 2025:** dylai 'Fforwm Rownd 5' gael ei sefydlu gan Ystad y Goron a datblygwyr llwyddiannus Rown Prydles 5, a allai gynnwys rhanddeiliaid allweddol fel y llywodraeth a phartneriaid cyflenwi (ar adegau priodol) i annog trafodaeth agored ac i wneud y mwyaf o'r buddiannau o hyd at 4.5GW o FLOW yn y Môr Celtaidd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ffurfio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r datblygwyr gwynt ar y môr i sicrhau mwy o fuddiannau sy'n aros yng Nghymru o brosiectau yn y dyfodol.
- **Diwedd mis Gorffennaf 2025:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau â gwaith yr is-grŵp cydsynio (a ddechreuwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen) i sefydlu golwg hirdymor ar gynllunio a chydsynio a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau gwynt ar y môr newydd, gan ystyried gofynion cydsynio seilwaith ehangach, gan gynnwys porthladdoedd. Mae angen i hyn fod yn gyfannol, gan gwmpasu pob agwedd ar gynllunio a chydsynio ar draws tir a môr. Dylai hyn gynnwys:
  - — Mapio llwybrau cydsynio tebygol (er enghraifft Gorchymyn Cydsyniad Datblygu) a phwyntiau ymgysylltu allweddol, gan gynnwys gyda LlDU, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol.
  - — Ystyried yn gynnar yr hyn y mae LlC yn ei ddisgwyl gan ddatblygwyr i gefnogi ymgysylltu ystyrlon ac amserol â phrosiectau unigol.
  - — Ystyried sut i reoli amserlenni yn well ar bob agwedd ar gynllunio a chydsynio, gan weithio gyda phartneriaid (Cyfoeth Naturiol Cymru, cynllunio LlC, awdurdodau lleol ac ati.). Er enghraifft, gallai hyn gynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth neu Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag amserlenni cyfrwymol.

— Datblygu cynllun strategol (amserlen i'w chadarnhau, ond mae'n debygol o fod yn bum mlynedd, gyda sganio'r gorwel o'r galw ar ôl hynny) sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar sail dreigl ac sy'n nodi'r mannau cyfyng allweddol ar gyfer pob sefydliad partner (gan gynnwys y cydsynio integredig a gyflwynwyd gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ac sy'n cynnwys: cynllunio'r gweithlu; effeithiau cyllid / cyllideb; metrigau perfformiad allweddol; ac ati.

— Dull mwy strategol o ran proses gwneud penderfyniadau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae angen llais cryf a chydgysylltiedig ar Gymru ar yr hyn sydd ei angen gan brosiectau gwynt ar y môr lle mae'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol fod â digon o adnoddau i ymgysylltu ar gam cynllunio prosiect (2-3 blynedd cyn gwneud cais) i roi mewnbwn wrth lunio prosiectau a phenderfyniadau lleoli/llwybro yn ogystal â chyfleoedd economaidd-gymdeithasol cynnar.

— Mae angen safbwynt clir ar Lywodraeth Cymru ar unrhyw Gronfa Adfer Morol ac Iawndal Strategol (Deddf Ynni 2023) sy'n dryloyw ynghylch y dull strategol i'w gymryd a sut y bydd hyn yn cael ei weithredu.

- Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a'r holl awdurdodau cynllunio perthnasol arwain diwrnod 'Cwrdd â'r Rheoleiddiwr' ar gyfer eu holl brosiectau gwynt ar y môr mawr ar eu cam cychwynnol.  Y nod fyddai darparu map ffordd clir, cynhwysfawr i ddatblygwyr o'r hyn sydd ei angen ar gyfer eu prosiectau a phryd.

- **Haf 2025 tan ddiwedd mis Rhagfyr 2025:** fel y cydnabyddir yn y Cynllun Twf Diwydiannol Gwynt ar y Môr, mae angen cymorth arloesi strwythuredig i leihau cost defnyddio'r sector wrth iddo symud i fasnacheiddio llawn. I wneud hyn rhaid darparu cymorth i brofi cysyniadau, dyluniadau a ffyrdd newydd o weithio. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno'r achos dros Gymru i chwarae rhan sylweddol yn y dirwedd arloesi gwynt ar y môr sy'n datblygu, gan gynnwys y cysyniadau arfaethedig WinDD ac ATTI a nodir yn yr IGP (gan adeiladu ar gyfleusterau presennol[12]), yn ogystal ag arloesi gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi ehangach.

### 3.2.2 Gweithio gyda Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni

Mae'r angen am rwydwaith ynni priodol, fel y gall yr ynni a gynhyrchir ar y môr gyrraedd y bobl a'r busnesau sydd ei angen, yn cael ei ddeall yn dda. O gam cynnar y datblygiad, mae Ystad y Goron a'r Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni (pan oedd yn Weithredwr System Trydan) wedi bod yn gweithio ar y cyd ac yn strategol i ddadrisgio'r perygl ac i sicrhau bod y cynlluniau priodol ar waith i alluogi cyflwyno Rownd Prydlesu 5 ar gyfer Gwynt ar y Môr Arnofiol yn y Môr Celtaidd. Mae hyn yn newid sylweddol o'r dull a gymerwyd ar rowndiau prydlesu cynharach, gyda'r nod o wella llinell olwg i ddatblygwyr buddugol a byrhau amserlenni datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwaith strategol a chydweithredol hwn a hefyd y 'Datganiad o Fwriad' rhwng Ystad y Goron a NESO i rannu data a gwybodaeth, ac i weithio gyda'i gilydd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod y rhwydwaith trydan yn alluogwr fel y gellir gwireddu'r buddiannau y bydd gwynt ar y môr yn eu cynnig cyn gynted â phosibl.

12 Er enghraifft, mae cyfleusterau presennol OREC yng Nghymru (gan gynnwys MEECE), META, PDZ, ac ati yn cysylltu â chyfleusterau eraill ledled y DU

Rydym yn cymeradwyo cynllunio ynni gofodol strategol (SSEP) a gweithredu atebion grid strategol ar gyfer gwynt ar y môr ac yn cefnogi cynlluniau ynni strategol NESO, a fydd yn gweithredu fel glasbrint ar gyfer y system ynni sy'n ymgorffori polisi presennol Cymru a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Rydym yn cefnogi'r gwaith sydd ar y gweill drwy'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) a fydd yn amlinellu'r rhwydweithiau nwy a thrydan sydd eu hangen ar draws Prydain Fawr i ddarparu'r SSEP.

O ran y trafodaethau ar Adolygu Trefniadau'r Farchnad Drydan a pharthau phrisio, mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon mewn perthynas â'r diffyg asesiadau a thystiolaeth sydd ar gael i ystyried effeithiau newidiadau o'r fath ar Gymru.

Dyma'r **camau gweithredu**:

- Y NESO i ymgynghori'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill drwy'r strwythur llywodraethu a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau strategol .
- Y NESO i sicrhau cydnawsedd a chysondeb â chynlluniau gofodol presennol, gan gynnwys Cynlluniau Morol statudol a grëwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r cysoni hwn ymestyn ar draws cynlluniau gofodol NESO fel y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP), Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP), a'r Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) drwy grwpiau ymgysylltu a llywodraethu.
- Mae'r NESO yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddatblygiadau gwynt ar y môr yn y dyfodol a'r gwerth y mae hyn yn ei roi i Gymru wrth iddi ddatblygu ei chynlluniau strategol ar gyfer Prydain Fawr.
- Yn dilyn cyhoeddi a chymeradwyo'r SSEP, mae angen i Lywodraeth Cymru archwilio'r berthynas rhwng y SSEP a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a, lle y bo'n briodol, ymgorffori'r SSEP mewn fersiynau o'r cynlluniau hynny yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn gofyn i NESO barhau i ymgynghori ag ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff diwydiant, sefydliadau statudol, cynrychiolwyr llywodraeth leol ac aelodau o'r gymdeithas i ddatblygu cynlluniau ynni strategol, gan sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol briodol ledled Prydain Fawr.

# 4. Cyllid

## 4.1 Esboniad

Mae mynediad at fuddsoddiad yn ystyriaeth allweddol ar draws pob sector. Mae yna hefyd anghenion/gofynion buddsoddi gwahanol ar wahanol adegau yn natblygiad prosiectau a seilwaith ategol (fel porthladdoedd).

Mae'r adran hon yn trafod rôl cyllid y sector cyhoeddus wrth gefnogi a helpu i annog buddsoddiad y sector preifat ar wahanol adegau yn y cylch bywyd. Y chwaraewyr allweddol dan sylw yw:

- The Green Finance Institute (GFI)
- Y Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF)
- Banc Datblygu Cymru (DBW)
- Ystad y Goron
- UKEF
- Partneriaeth Twf Gwynt ar y Môr (OWGP) – yn ei rhinwedd fel y "corff cyflenwi" ar gyfer yr IGP, sy'n gweinyddu cyllid datblygu cadwyn gyflenwi a ddarperir gan ddatblygwyr OWIC
- GB Energy
- Sector preifat.

## 4.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

Mae'r gweithgareddau allweddol y mae camau gweithredu'r Grŵp yn y cynllun hwn yn dibynnu arnynt yn cynnwys:

- **Amseru i'w gadarnhau:** cytundeb, cwblhau a lansio/argaeledd cynhyrchion cyllid sy'n gysylltiedig â defnydd (a ddatblygwyd gan y GFI ar gyfer DESNZ - er enghraifft ar gyfer porthladdoedd).
- **Amseru i'w gadarnhau:** cyflwyno rhaglen ariannu datblygu'r gadwyn gyflenwi gwerth £300m GB Energy.
- Lansio cam nesaf OWGP o gyllid y gadwyn gyflenwi gan ddatblygwyr fel rhan o'i rôl fel corff cyflenwi IGP – lansiad wedi'i gynllunio ar gyfer Gwynt ar y Môr Byd-eang (Mehefin 2025).
- Canlyniad cynigion Bonws Diwydiant Glân gan ddatblygwyr sy'n cynnig i AR7 – amseru yn ddiweddarach eleni gyda chanlyniadau'r Contract ar gyfer Gwahaniaeth.
- Rownd 2 o Gyflymydd Cadwyn Gyflenwi Ystad y Goron a'r £400 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin 2025.

Mae'r Grŵp yn nodi ac yn croesawu'r Canllaw Buddsoddi sydd wedi ei ddatblygu gan Renewables UK[13]; mae'n addo darparu cyfuniad amhrisiadwy o'r holl wahanol ffynonellau cyllido sydd ar gael i'r sector.

13 See UK offshore wind supply chain investment guide | RenewableUK and OWIC

**Camau gweithredu** a nodwyd:

- **Mis Mehefin i fis Tachwedd 2025:** LlC to work with DBW, National Wealth Fund,LlC i weithio gyda DBW, y Gronfa Gyfoeth Wladol, Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban, Ystad y Goron a GB Energy a phartïon perthnasol eraill i gynnal dadansoddiad o'r bylchau a fydd yn egluro'r mathau penodol o gymorth cyllid sydd eu hangen i ddenu contractwyr a thyfu'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig yng Nghymru fel y gall Cymru ddenu, tyfu ac ymgorffori buddiannau datblygiadau gwynt ar y môr.
- LlC i sefydlu paramedrau pecyn a fyddai'n annog buddsoddiad gan gontractwyr mewn swyddogaethau a chyfleusterau sy'n ychwanegu gwerth i Gymru. Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y mathau o gyllid sy'n cael eu ceisio gan fuddsoddwyr, y raddfa a'r mathau o gyllid sy'n ofynnol, y cysoni â chyfleoedd presennol, a lle mae angen unrhyw arloesedd neu ddatblygu cynnyrch newydd i leoli Cymru i ddal gwerth o ddatblygiadau masnachol mewn gwynt ar y môr yn yr hirdymor.
- Yn unol â'r uchod, rhoi ystyriaeth benodol i:
  - Ysgogi datblygiadau penodol a phrosiectau adeiladu capasiti/gallu yn y gadwyn gyflenwi;
  - Y potensial i'r model MIMS gynnig atebion i anghenion cyllid a nodwyd;
  - Deall y llinell amser ar gyfer y Rownd Ocsiwn 5 (pennu'r pris ar gyfer ynni ar y môr) a rhaeadru cyfle masnachol hyfyw sy'n codi i Gymru.
  - Cyfle i gronfa Cadwyn Gyflenwi ar y Môr o dan arweiniad BDC gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r ecosystem yng Nghymru.

Mae'r Grŵp yn nodi ac yn croesawu partneriaeth GB Energy-Ystad y Goron a Deddf Ystad y Goron 2025 sy'n ehangu pwerau buddsoddi a benthyca Ystad y Goron. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda'r ddau sefydliad i sicrhau eu bod yn gallu cael effaith gadarnhaol yng Nghymru.



# 5. Porthladdoedd

## 5.1 Esboniad

Mae porthladdoedd yn hanfodol i wynt ar y môr. P'un a ydynt yn sefydlog neu'n arnofiol, gall y porthladdoedd gynnig hyb ar gyfer gweithgynhyrchu, lle cynnull ar gyfer dod â chydrannau allweddol at ei gilydd, (ar gyfer arnofiol) glan cei lle gellir integreiddio tyrbinau gwynt, safle ar gyfer gweithrediadau a chynnal a chadw, ac ati.

Mae gofynion penodol porthladdoedd yn unigryw ac maent yn dibynnu ar anghenion prosiectau, agosrwydd, gallu, ac argaeledd. Mae porthladdoedd wrth wraidd gweithgarwch economaidd a chreu swyddi drwy baratoi'r gadwyn gyflenwi dwy gydol cyfnodau adeiladu a gweithredol cylch oes fferm wynt.

O ystyried cyflymder datblygu technoleg tyrbinau a thyrau a newydd-deb a maint yr is-strwythurau sy'n gysylltiedig â FLOW, mae sicrhau bod seilwaith addas ar gael mewn porthladdoedd yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu gwynt ar y môr.

Mae gan y porthladdoedd yng Nghymru nifer o fanteision allweddol wrth ateb heriau'r sector:

- Argaeledd tir i ddarparu lle i osod ac ardal i weithgynhyrchwyr ei defnyddio (mae llawer o'r porthladdoedd yn y DU ehangach a phorthladdoedd cyfandirol yn gyfyngedig o ran lle).
- Agosrwydd at y safleoedd lleoli sy'n golygu llai o amseroedd trosglwyddo – yn enwedig, ar gyfer sefydlog, Mostyn a Chaergybi ac ar gyfer FLOW yn y Môr Celtaidd, Porthladd Penfro a Phort Talbot.
- Dau borthladd rhydd – un yn y gogledd ac un yn y de – gan roi cyfleoedd i ddatblygwyr a gweithgynhyrchwyr ar gyfer cymhellion treth i symud/creu gweithrediadau yn y porthladdoedd ar gyfer marchnadoedd domestig ac allforio.

Mae'r adran hon yn archwilio'r camau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau bod porthladdoedd Cymru – Porthladd Mostyn, Caergybi, Porthladd Penfro a Phort Talbot - yn barod ar gyfer y cyfleoedd sydd ar gael ac yn gallu denu datblygwyr a gweithgynhyrchwyr i Gymru.

## 5.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

Fel gyda rhannau eraill o'r cynllun gweithredu hwn, mae datblygu porthladdoedd yn dibynnu'n hanfodol ar sicrwydd llif o brosiectau ac archebion gan ddatblygwyr (gweler adran 2.2) gan greu cyfyngiad marchnad 'iâr ac wy' ar gyfer defnyddio gwynt ar y môr, a chreu'r risg o golli allan i ehangu seilwaith mewn mannau eraill.

Fel y nodir yn adran Gyllid y cynllun hwn, gwnaeth DESNZ gontractio'r Green Finance Institute (GFI) i ymchwilio i ateb ar gyfer offeryn(nau) cyllido o dan arweiniad y llywodraeth i gefnogi datblygu porthladdoedd, yn seiliedig ar fodel 'defnyddio'. O ganlyniad, mae'r GFI wedi cynnig dau fodel:

- Gallai DESNZ ddarparu Grant Adenilladwy i borthladdoedd i gwmpasu'n rhannol y costau sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio, cydsynio, peirianneg, a dylunio, a thrwy hynny liniaru risgiau marchnad a arweinir gan bolisi.
- Gallai'r Gronfa Gyfoeth Wladol gynnig benthyciad pontio i gwmpasu costau adeiladu'n sylweddol ac amsugno rhai o'r risgiau refeniw a wynebir gan borthladdoedd ar bwynt y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol (FID).



Mae'n debygol y bydd y ddau gynnyrch hyn yn hanfodol ar gyfer yr uwchraddio seilwaith sy'n ofynnol ym mhorthladdoedd Cymru, yn enwedig ar gyfer FLOW (Porthladd Penfro a Phort Talbot).

- **Cam gweithredu:** Llywodraeth Cymru i geisio cytundeb gan LlDU/DSNZ ar gyfer cynhyrchion ariannol (grant adenilladwy a benthyciad pontio) sy'n gysylltiedig â defnydd a ddatblygwyd gan y GFI, a'u lansio'n gynnar.

Rhaid cydnabod bod porthladdoedd ar wahanol gamau, ac mae eu parodrwydd i dderbyn risg yn amrywio. Dylid cydnabod gwariant ar borthladdoedd hyd yma wrth ystyried cymorth neu ymyriadau ychwanegol. Dylai dulliau cyffredinol a chystadleuol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu porthladdoedd gael eu disodli gan ddull 'dal llaw' pwrpasol i gefnogi pob porthladd yn ei ddatblygiad yn ôl yr angen i gefnogi uchelgeisiau gwynt ar y môr y DU.

Mae angen darparu sicrwydd refeniw i borthladdoedd i alluogi'r buddsoddiad sy'n ofynnol i uwchraddio'r seilwaith. Mae nifer o offerynnau y gellid eu defnyddio i gyflawni hyn, ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei flaenoriaethu gan y Llywodraeth i adeiladu hyder er mwyn i borthladdoedd symud ymlaen gyda chynllunio, cydsyniad a chynllunio datblygu. Mae'r camau gweithredu i greu marchnad, amgylchedd galluogi a chyllid a nodwyd yn yr adrannau blaenorol yn hanfodol bwysig i'r porthladdoedd. Yn ogystal, mae LlC yn croesawu'r ysyriaethaugan Adran Busnes a Masnach LlDU i'r posibilrwydd o gynnyrch 'gwarant galw', fel yr argymhellwyd yn adroddiad yr Hyrwyddwr Gwynt ar y Môr[14].

Er mwyn i ddatblygiad porthladdoedd symud ymlaen yn unol â Phrospectws Porthladdoedd sydd wedi ei gynnig yn y cynllun hwn, mae nifer o ofynion cymorth a gwybodaeth hanfodol i'w coladu. Dyma'r **camau gweithredu** hanfodol:

- Mae'r porthladdoedd yn cefnogi'n gryf yr angen am y canlynol:
  - Polisi a llif hirdymor clir ar gyfer cyflwyno prosiectau Gwynt ar y Môr.
  - Barn strategol ar gynllunio a chydsynio i sicrhau bod capasiti a gallu digonol ar gael pan fo angen.
- **Haf:** datblygu a chwblhau prosbectws Porthladdoedd Cymru ar gyfer Gwynt ar y Môr (gan ystyried anghenion y farchnad sefydlog ac arnofiol) Llwyodraeth Cymru i'w gyhoeddi.
- Rydym yn croesawu'r gofynion ychwanegol ym mhroses brydlesu Ystad y Goron sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr nodi'r porthladdoedd a allai gyflawni'r datblygiadau. Dylai Ystad y Goron barhau i ystyried porthladdoedd Cymru mewn penderfyniadau buddsoddi posibl yn y dyfodol a rhaglenni cefnogi e.e. Cronfa Cyflymu'r Gadwyn Gyflenwi a'r £400 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin.
- Bydd y porthladdoedd sydd eisoes â chydsyniadau yn parhau â'r gwaith i naill ai ddatblygu eu seilwaith neu gadarnhau'r amserlen ar gyfer y datblygiad hwnnw, i ddarparu sicrwydd ar amserlenni ar gyfer datblygwyr Gwynt ar y Môr sefydlog.
- **Hydref 2025 i Haf 2026:** cefnogi prosiectau profi ac arddangos a phorthladdoedd lleol mewn trafodaethau i alluogi datblygwyr i ymgymryd ag integreiddio mewn porthladd yng Nghymru .

14 Gweler **Seizing our opportunities: independent report of the Offshore Wind Champion – GOV.UK**

# 6. Y Gadwyn Gyflenwi a Chlystyrau

## 6.1 Esboniad

Mae rhai o alluoedd cadwyn cyflenwi traddodiadol Cymru wedi'u lleoli'n strategol ger porthladdoedd allweddol, gan eu lleoli'n dda i fanteisio ar y manteision a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Mae gan gyflenwyr Cymru sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer y sector gwynt ar y môr, yn enwedig wrth weithgynhyrchu ac adeiladu eitemau pwrpasol ar gyfer asedau tanwydd ffosil a'r diwydiant prosesu dur sy'n addas iawn ar gyfer amrywiaeth eang o ddyluniadau strwythurol, gan gynnwys concrit a dur. Yn ogystal:

- Mae gan Gymru sylfaen gadwyn gyflenwi brofedig a llwyddiannus sy'n ymestyn o awyrofod i ynni, gan ddarparu cyfleoedd i ddarparu systemau a gwasanaethau yn y sector Gwynt ar y Môr.
- Cryfderau'r gadwyn gyflenwi a nodwyd yn y Prosbectysau Twf Rhanbarthol a gyhoeddwyd ar 19 Mai 2025[15] sy'n cynnwys Gosod, Gweithrediadau a Chynnal a Chadw'r Genhedlaeth Nesaf a Gwasanaethau Amgylcheddol a Sylfeini ac Is-strwythurau Diwydiannol y Genhedlaeth Nesaf, Clyfar.
- Canolfannau arloesi sy'n cynnwys Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (MEECE) dan arweiniad OREC, yr Ardal Prawf Ynni Morol (META) a reolir gan Ynni Môr Cymru (MEW) a Pharth Arddangos Sir Benfro (PDZ).

### 6.1.1 Tirwedd y Gadwyn Gyflenwi Bresennol

Ar 31 Mawrth, 2025, mae cofnodion Tŷ'r Cwmnïau yn dangos bod 1,830 o gwmnïau â chodau post Cymru yn weithredol, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn fusnesau bach a chanolig. Mae nifer sylweddol o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog, sy'n golygu eu bod yn gymwys ar gyfer y Bonws Diwydiant Glân (BDG).

Yn ddiweddar, cwblhaodd Llywodraeth Cymru arolwg busnes lle dywedodd 98% o gyflenwyr fod ganddynt awydd i gefnogi prosiectau yn y dyfodol yn y sector Gwynt ar y Môr. Dangosodd cyflenwyr gymysgedd o allu yn y sector, gyda chryfderau ar draws rheoli prosiectau a pheirianneg (dros 70% gyda gallu) yn erbyn bylchau ar draws ceblau a systemau tyrbinau (llai na 50% o allu). Dangosodd yr adroddiad hefyd nad oedd gan 43% o'r gadwyn gyflenwi unrhyw brofiad yn y sector a bod 63% o'r ymatebwyr yn gyflenwyr micro, neu fach.

Mae'r adroddiad wedi dangos cyfres o ganfyddiadau allweddol o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru ar bwysigrwydd ymgysylltu strategol parhaus a llwybrau cliriach ar gyfer cyfleoedd yn y sector ochr yn ochr â gofynion hyfforddi i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn gallu. Y meysydd a nodwyd mwyaf defnyddiol ar gyfer llwyddiant yn y sector Gwynt ar y Môr yn y dyfodol oedd cysylltiadau â chwmnïau mwy a chyfleoedd cadwyn gyflenwi ochr yn ochr â gwelededd llif o gyfleoedd.

15 Gweler **Clusters | Cyngor y Diwydiant Gwynt ar y Môr (OWIC)**


RWE
Manufacturer and Designer of High-Integrity HVAC Products for Wind Turbines & Offshore Substations
• HVAC dampers
• Airflow management
• Air intake products
• Displacement ventilation
www.halton.com
THIS IS
Did you know
More than half of Wales' electricity already comes through renewables.
We're changing our whole energy system so that it's more localised, flexible and smarter.

### 6.1.2 Heriau

Mae angen mynd i'r afael â sawl her i wella cystadleurwydd busnesau Cymru yn y sector Gwynt ar y Môr:

- Costau gweithredu uchel a'r angen am newid sylweddol mewn technoleg, er enghraifft weldio robotig sy'n debyg i dechnegau modern adeiladu llongau sy'n creu rhwystrau i fynediad. Mae mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn gofyn am archwilio atebion awtomataidd uwch-dechnoleg newydd a chanolbwyntio ar gynhyrchiant i gystadlu'n fyd-eang.
- Er bod sgiliau priodol ar gael, mae diffyg capasiti sylweddol yng Nghymru i fodloni gofynion posibl y sector Gwynt ar y Môr. Mae uwchsgilio, ailymgysylltu â gweithwyr, a denu newydd-ddyfodiaid yn hanfodol i ennill cyfran o'r farchnad.
- Mae adeiladu hanes o gyflenwi yn y sector Gwynt ar y Môr yn hanfodol. Gall prosiectau 'camu' llai, fel prosiectau Profi ac Arddangos ar gyfer FLOW, helpu i ddatblygu galluoedd lleol. Yn ogystal, argymhellir archwilio cyfleoedd gyda datblygwyr ar gyfer datblygiadau sefydlog Gwynt ar y Môr yng Nghymru (fel Awel y Môr, Mona a Morgan) yn ogystal â rhannau eraill o'r DU a marchnadoedd rhyngwladol.

### 6.1.3 Cymorth Ariannol

Mae'r adran ar Gyllid yn amlinellu'r offer sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru arloesi a pharhau i fod yn gystadleuol o ran pris. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu camau gweithredu gan Lywodraeth y DU i wella cystadleurwydd, megis y posibilrwydd o leihau costau ynni i fusnesau ynni-ddwys drwy'r Strategaeth Ddiwydiannol a'r posibilrwydd o gyflwyno'r Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau (CBAM).

## 6.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau


Mae Ystad y Goron a Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o bwyslais ar fuddiannau cadwyn gyflenwi'r DU drwy brosesau prydlesu, cronfeydd Cyflymu'r Gadwyn Gyflenwi, Bonws Diwydiant Glân (BDG) a Chontractau ar gyfer Gwahaniaeth. Mae angen adolygu'r trefniadau newydd hyn i sicrhau bod Cymru'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i'w chadwyn gyflenwi.

Ymhlith y **camau gweithredu** allweddol a nodwyd mae:

- Denu contractwr haen 1/EPCI i Gymru i weithio'n agos gyda chadwyn gyflenwi Cymru a chreu ecosystem fwy o gwmnïau.
- Cynyddu nifer y cwmnïau lleol sydd wedi'u hachredu gan BDG yng Nghymru i'w gwneud yn fwy deniadol i ddatblygwyr prosiectau Gwynt ar y Môr. Gallai hyn fod drwy leoliad (mewn ardal o amddifadedd lluosog) neu bartneriaeth â sefydliadau fel y Bartneriaeth Twf Gwynt ar y Môr (OWGP) i gefnogi achrediad Menter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTI) ar gyfer cwmnïau.
- Cynnal sesiynau datblygu cyflenwyr yn dilyn y cyhoeddiad ar Rownd Prydlesu 5 i hyrwyddo cydweithio a goresgyn heriau maint.
- Gweithio'n strategol gyda'r gadwyn gyflenwi a chlystyrau Gwynt ar y Môr yng Nghymru i ddenu cyfran uwch o wariant yn y sector Gwynt ar y Môr, gydag ymrwymiad gan y datblygwyr.
- Cydweithio ag Ystad y Goron i gynyddu'r cymorth ar gyfer y gadwyn gyflenwi drwy raglenni cyllido presennol.
- Archwilio dulliau o fynd i'r afael â thelerau ac amodau ymgysylltu cytundebol i gysoni'r risg a'r wobr yn well.
- Cefnogi gweithredu technoleg ar gyfer gweithgynhyrchu busnesau bach a chanolig i wella cystadleurwydd.
- Cynnal adolygiad busnes i archwilio cyfleoedd datgomisiynu ac adbweru ar asedau presennol ac asedau yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae porth GwerthwchiGymru yn parhau i ddatblygu i gadw i fyny ag arfer gorau profiad defnyddiwr digidol modern. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi cynnwys uwchraddio'r dyluniadau i gysoni patrymau dylunio GEL Llywodraeth Cymru, er mwyn gwella cysondeb profiad y defnyddiwr ar draws gwasanaethau cymorth busnes ar-lein. Mae GwerthwchiGymru bellach wedi'i gysoni ymhellach â llwyfannau caffael digidol Llywodraeth y DU gydag integreiddiadau ychwanegol i'r safleoedd Dod o hyd i Dendr a Phlatfform Digidol Canolog yn dilyn cyflwyno rheoliadau Deddf Caffael 2023. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno rhif adnabod cyflenwyr unigryw a ddefnyddir ar draws y gwahanol blatfformau caffael i wella tryloywder caffael y sector cyhoeddus.

Yn ogystal, mae Awdurdod Trawsnewid Môr y Gogledd wedi creu'r Cynllun Braenaru Ynni a'r Porth sy'n darparu gwelededd amser real ar gyfer (ymhlith pethau eraill) prosiectau i gefnogi'r trawsnewidiad ynni, er enghraifft, prosiectau ynni gwynt a dal a storio carbon[16]. Cyhoeddodd Awdurdod Trawsnewid Môr y Gogledd ac OWIC berthynas gryfach yn 'Global Offshore Wind 2025'.



**16 Gweler Energy Pathfinder a Microsoft Power BI**

# 7. Sylfeini ac Is-strwythurau

## 7.1 Esboniad

Mae'r Cynllun Twf Diwydiannol Gwynt ar y Môr yn nodi Sylfeini ac Is-strwythurau Diwydiannol fel maes twf posibl allweddol i'r DU. Mae'r adran hon yn defnyddio'r safbwynt hwnnw i nodi cyfleoedd i Gymru – p'un a yw'r sylfeini/is-strwythurau hynny'n cael eu hadeiladu o ddur neu goncrit.

Fel y nodir yn adran y Porthladdoedd, mae gan Gymru'r fantais o ddau borthladd rhydd a all ddarparu cymhellion ariannol i sefydliadau sy'n gweithgynhyrchu a/neu'n cydosod sylfeini ac is-strwythurau drwy seibiannau treth (lwfansau cyfalaf ar weithfeydd newydd a chyfraddau busnes gostyngol). Yn ogystal, mae Ystad y Goron wedi ei gwneud yn ofynnol nodi cyfleusterau porthladd integreiddio yn y tendr yn Rownd Prydlesu 5. Arweiniodd hyn at ymgysylltu'n gynnar â Phorthladd Penfro (Porthladd Aberdaugleddau), Porthladd Abertawe, a Phort Talbot.


## 7.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

Mae dibyniaethau allweddol yn y maes hwn yn cynnwys:

- Strategaeth Ddur y DU yn cael ei chyhoeddi gan LlDU.
- Strategaeth Ddiwydiannol y LlDU yn cael ei chyhoeddi gan y DU.

Dyma'r cyfleoedd a'r **camau gweithredu** allweddol:

- Rydym yn galw ar y Strategaeth Ddur arfaethedig i gydnabod y cyfleoedd i ddur y DU gael ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu gwynt ar y môr a seilwaith ynni a sifil cysylltiedig. Rhaid cydnabod y cyfle penodol i integreiddio'r gadwyn gyflenwi dur â'r cyfleoedd integreiddio a chydosod ym mhorthladd Port Talbot gyda llywodraethau sy'n barod i gefnogi'r sector i gyflawni.
- Mae'r sector concrit ac agregau mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sylfeini concrit sydd â chapasiti yng ngogledd a de Cymru yn ddigon agos at borthladdoedd i gefnogi'r sector FLOW. Rydym yn galw ar lywodraethau i weithio mewn partneriaeth â'r sector i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn pe bai sylfeini concrit yn dechnoleg a ffefrir i ddatblygwyr.
- Rydym yn cydnabod bod gan gynnig dur Cymru a'r DU elfennau coll – yn y bôn gweithgynhyrchu platiau, fel y nodwyd yn adroddiadau'r Bil Gwaith – sy'n cyfyngu ar dreiddiad yn y segment busnes gwynt ar y môr. Rydym yn annog y Strategaeth Ddur i ystyried bylchau o'r fath ac, ar ôl ei chyhoeddi, dangos lle y gall Cymru gefnogi elfennau a galluoedd y 'Bil Gwaith' orau
- Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gydag LlDU i gefnogi'r sectorau dur a choncrid. Er enghraifft – ystyried a oes angen strategaeth concrit ar lefel LlDU.



# 8. Sgiliau

## 8.1 Esboniad

Mae gan Gymru gynnig sgiliau presennol o ansawdd uchel ar draws addysg bellach ac uwch sydd eisoes yn cyfrannu at y sector gwynt ar y môr. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau arloesol gyda datblygwyr, rhaglenni prentisiaeth llwyddiannus, a'r gwaith diweddar i sefydlu seilwaith arbenigol fel y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Gwynt ar y Môr yn y Rhyl. Mae arbenigedd a chapasiti sylweddol eisoes yn bodloni ar draws Gogledd a De Cymru i fodloni gofynion y gweithlu o ran datblygiadau gwynt ar y môr sefydlog ac arnofiol. Mae cyfle bellach i gryfhau cydweithio, gwella gwelededd, a chynyddu'r modelau hyn yn genedlaethol i sicrhau'r buddiannau economaidd a chymdeithasol hirdymor mwyaf posibl.

Rydym yn croesawu'r gwaith a arweiniwyd gan LlC ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net[17], yn ogystal â chan y diwydiant drwy Gynllun Pobl a Sgiliau OWIC a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i weithredu Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, sy'n cynnwys ymrwymiadau penodol i'r gweithlu. Mae'r mentrau hyn yn nodi camau hanfodol tuag at ddatblygu sgiliau cydgysylltiedig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y buddiannau hyn yn cael eu gwireddu'n llawn yng Nghymru, mae'n hanfodol galluogi cyd-ddatblygu rhwng diwydiant, llywodraeth, a darparwyr sgiliau ac addysgol Cymru i gyd-ddylunio darpariaeth hyfforddiant sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i Gymru.

Rydym hefyd yn croesawu gofyniad Ystad y Goron fel rhan o Rownd Prydlesu 5 i gynigwyr ddatblygu cynigion ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau a chyfleoedd prentisiaeth, a buddsoddiad diweddar Cyflymu'r Gadwyn Gyflenwi mewn prosiectau sgiliau yng ngholegau Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Rydym hefyd yn croesawu cyfleoedd drwy'r Bonws Diwydiant Glân (BDG), i fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gynhwysol o ddarparwyr yng Nghymru a'u gweithredu gyda nhw er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cefnogi buddsoddiad mewn talent a sefydliadau yng Nghymru yn uniongyrchol.

Mae'r gofynion sgiliau ar gyfer y sector gwynt ar y môr yn eang ac yn rhychwantu cylch oes cyfan y prosiect - o ddylunio a chydsynio amgylcheddol i osod, gweithrediadau, a datgomisiynu. Maent yn cynnwys rolau penodol i sector (e.e., technegwyr tyrbinau gwynt, peirianwyr trydanol foltedd uchel) a sgiliau galluogi (e.e., ecoleg forol, rheoli prosiectau, cymwyseddau digidol a data). Gall gwynt ar y môr gefnogi datblygu economaidd rhanbarthol mewn cymunedau arfordirol a denu a chadw gweithlu medrus.

Er mwyn cyflawni ar gyfer Cymru, rhaid i bolisi sgiliau, dulliau cyllido, a systemau cynllunio weithio ochr yn ochr â diwydiant i ragweld anghenion sgiliau yn effeithiol ac ymateb iddynt. Mae angen hyder a chymorth ar ddarparwyr hyfforddiant i fuddsoddi cyn y galw, a rhaid cymell diwydiant i weithio gyda sefydliadau Cymru i gyd-ddylunio llwybrau hyfforddi. Bydd mwy o hyblygrwydd o ran sut y mae rhaglenni'n cael eu cyllido a'u cyflawni yn hanfodol, yn arbennig er mwyn cefnogi arbenigeddau carfanau isel, modelau digidol a chyfunol, a mynediad mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.

17 Cynllun gweithredu sgiliau sero net | LLYW.CYMRU



## 8.2 Camau Gweithredu a Dibyniaethau

Er mwyn datblygu'r camau gweithredu isod, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r is-grŵp sgiliau, a ddechreuwyd fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, i ddatblygu'r camau gweithredu manwl a fydd yn cefnogi datblygwyr wrth iddynt gael eu cadarnhau ac wrth i gynlluniau ddod yn gliriach. Mae'r camau gweithredu hyn yn gofyn am ddull cydgysylltiedig rhwng y sefydliadau addysgol (gan weithio ar y cyd â Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil[18]), colegau a phrifysgolion, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a diwydiant. Mae angen i'r rhain gael eu hystyried ymhellach wrth i'r camau gweithredu gael eu trafod yn fanwl.

Y **cam gweithredu** yw i'r is-grŵp sgiliau, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, barhau â'i waith i wneud y canlynol:

- Cryfhau a chynyddu cydweithio rhwng diwydiant a darparwyr sgiliau Cymru:
  - Adeiladu ar fodelau llwyddiannus (e.e., RWE/Coleg Llandrillo, Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy, ac ati.) drwy gyd-fuddsoddi hirdymor mewn cyfleusterau a rennir, cynllunio'r cwricwlwm, a lleoliadau gwarantedig.
  - Ymestyn partneriaethau rhanbarthol drwy ddatblygu Hybiau Sgiliau yng Ngogledd a De Cymru i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson â seilwaith porthladdoedd a phrosiectau.
- Cyflawni cynnig sgiliau Cymru gyfan:
  - Hwyluso cydgysylltu a rhannu gwybodaeth parhaus Gogledd-De i greu cynnig cenedlaethol cydlynol i ddatblygwyr.
  - Mapio galluoedd presennol AB/AU a chysoni ag anghenion a seilwaith prosiectau rhanbarthol, parhaus ac ymlaen llaw.
- Dadrisgio buddsoddiad mewn hyfforddiant:
  - Cyflwyno signalau cynnal a darparu gwelededd ymlaen llaw o anghenion prosiectau er mwyn galluogi darparwyr i gynyddu eu darpariaeth ymlaen llaw.
  - Llunio amserlen o'r holl brosiectau seilwaith mawr i alluogi hyblygrwydd a gwydnwch ar draws sectorau.
  - Darparu mwy o hyblygrwydd o ran cyllid i gefnogi cyflwyno i garfanau isel, dysgu ar-lein a chyfunol, ac arloesi.
  - Creu cyrsiau/modiwlau hyfforddi cyflym i gefnogi anghenion sgiliau tymor byr.
- Gwella cysylltiadau rhwng hyfforddiant a chyflogaeth:
  - Cydweithio â datblygwyr a'r gadwyn gyflenwi i gyd-ddylunio llif hyfforddiant sy'n 'barod am waith' sy'n arwain yn uniongyrchol i gyflogaeth.
  - Annog cwmnïau i ddarparu lleoliadau a phrentisiaethau â thâl i ddysgwyr Cymru.
  - Cefnogi sgiliau, uwchsgilio a dysgu cyd-destunol ymhellach er mwyn ehangu a chyflymu cynnydd ar gyfer sgiliau y mae galw amdanynt.
- Gwella cysondeb â pholisi a chynllunio sy'n cael ei arwain gan ddata:
  - Mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn LlC a LlDU, sefydlu swyddogaeth genedlaethol gwybodaeth am y farchnad lafur i gydlynu data ar gyflenwad a galw'r gweithlu.
  - Defnyddio prosesau cynllunio statudol (e.e., Gorchmynion Cydsyniad Datblygu, Cynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth) i lywio buddsoddi gan ddarparwyr a sicrhau ymrwymiadau.
  - Gweithio gyda Skills England (pan fydd wedi'i sefydlu) i rannu arfer gorau a gwella cysondeb ar draws y DU, yn enwedig o amgylch prentisiaethau.

18 Gweler **Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

- Ehangu mynediad, ymwybyddiaeth a thegwch o ran darpariaeth sgiliau:
  - Cryfhau allgymorth ac ymwybyddiaeth ar gam cynnar ar draws ysgolion, cymunedau, a dylanwadwyr gyrfaoedd, gan ganolbwyntio ar godi dyheadau a dealltwriaeth o'r sector.
  - Datblygu a chyllido rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer ailsgilio ac uwchsgilio oedolion, gan gynnwys bwrsariaethau i'r rhai sydd â dibynyddion.
  - Hyrwyddo ymgysylltu ar sail partneriaeth rhwng diwydiant a darparwyr addysg a sgiliau, gan sicrhau darpariaeth gynhwysol a hygyrch ar gyfer cymunedau gwledig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Mynd i'r afael â chapasiti a llif gweithlu ar gyfer cyflawni:
  - Cydnabod heriau o ran recriwtio a chadw addysgwyr, hyfforddwyr, ac aseswyr medrus ar draws y sector a mynd i'r afael â'r heriau hyn.
  - Cynnwys cynllunio ar gyfer llif tiwtoriaid mewn strategaethau gweithlu yn y dyfodol ac ystyried sut y gall diwydiant gefnogi capasiti darparwyr.
- Fframwaith cynllunio a chyflawni:
  - Sefydlu Partneriaeth Cyflawni Sgiliau Gwynt ar y Môr sy'n cynnwys LlC, diwydiant, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, a darparwyr addysg.
  - Cyhoeddi diweddariadau blynyddol o anghenion sgiliau rhanbarthol, prinder sgiliau a bylchau sgiliau, gan gynnwys cyflawni yn erbyn targedau a rennir.

# 9. Gweithredu

Mae llawer o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn cydnabod bod angen rhagor o waith; er enghraifft, mewn llawer o feysydd, bydd angen camau gweithredu manylach wrth i ddibyniaethau allweddol gael eu cyflawni.

Bydd angen hefyd sicrhau bod y camau gweithredu sydd eisoes wedi'u nodi yn cael eu monitro a'u holrhain. Mae hyn yn debygol o gynnwys cefnogi gwaith parhaus y sectorau wrth i gynlluniau manwl gael eu datblygu – er enghraifft ar gyfer cydsynio a sgiliau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn drwy dîm gweithredu Gwynt ar y Môr (enw i'w gadarnhau). Bydd hyn yn adeiladu ar gydweithio llwyddiannus y Grŵp ac yn parhau i gynnwys partneriaid y sector. Efallai y bydd hefyd yn cynnwys cymysgedd o adnoddau o sefydliadau eraill, yn ogystal â swyddogion LlC, i sicrhau bod mynediad at arbenigwyr sydd â dealltwriaeth ddofn o'r diwydiant.

Bydd manylion y tîm gweithredu a'r dull yn cael eu datblygu ochr yn ochr â chyhoeddi'r cynllun hwn ac maent yn debygol o gynnwys cynnal a chadw parhaus y cynllun 'lôn nofio' cyffredinol a ddatblygwyd gan y Grŵp.



# 10. Cyfathrebu'r Cynllun hwn

## 10.1 Esboniad

Nod cynllun cyfathrebu'r grŵp gorchwyl a gorffen fydd defnyddio'r camau gweithredu a ddatblygwyd gan y grŵp i godi proffil a gwelededd Cymru fel lle i gynnal busnes ym maes Gwynt ar y Môr.

Y man cychwyn felly fydd cyhoeddi'r ddogfen hon. Yn ogystal â manteisio ar ddyddiadau/cynadleddau allweddol, bydd y cynllun yn darparu dull cyfathrebu parhaus sy'n ailddefnyddio gwybodaeth/cyhoeddiadau sydd eisoes wedi'u gwneud ac yn ychwanegu atynt, gan adeiladu ar bob un ohonynt a chwblhau'r darlun o 'gyrchfan Cymru'.

## 10.2 Camau Gweithredu

Bydd y cynllun Cyfathrebu yn manteisio ar ddyddiadau allweddol eraill sydd i ddod, fel y nodir isod, yn ogystal â darparu naratif cyffredinol, sy'n cysylltu'r digwyddiadau ac yn creu 'curiad drwm' rheolaidd o weithgarwch i gadw'r sector Gwynt ar y Môr yng Nghymru yn 'flaenllaw yn y meddwl'.

Mae'r dyddiadau allweddol yn cynnwys:

- 7/8 Hydref 2025 – Dyfodol Ynni Cymru.
- 12/13 Tachwedd 2025 – Cynhadledd FLOW yn Aberdeen.
- Rhagfyr 2025 – Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru.



# Atodiad A: Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr

Mae gennym weledigaeth ar gyfer gwynt ar y môr sy'n arwain at ddiogelwch ynni ac sy'n creu swyddi gwyrdd ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Y grŵp gorchwyl a gorffen gwynt ar y môr i gynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ynghylch i ba raddau y gellir cyflawni'r weledigaeth hon i Gymru. Bydd y grŵp yn:

- darparu asesiad manwl a gonest ar y gallu i gyflawni gwynt ar y môr i Gymru, nodi'r meysydd blaenoriaeth i sicrhau newid economaidd a chymdeithasol ar draws ein cymunedau arfordirol a'r economi ehangach, a
- datblygu cynllun clir gyda chamau gweithredu pendant, amserlenni a pherchnogion camau gweithredu i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Gymru o wynt ar y môr.

Ni fydd y grŵp hwn yn llunio adroddiad arall ar y cyfle lefel uchel neu'r heriau i Gymru, ond bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu clir y mae angen i'r sectorau perthnasol a'r holl randdeiliaid yn economi Cymru eu cymryd i wireddu'r cyfle a goresgyn yr heriau.

Bydd y grŵp yn cael ei arwain gan arweinwyr sector sy'n gyfrifol am weithio yn eu sector. Disgwylir i aelodau ymgysylltu â chynrychiolaethau o bob rhan o'u diwydiant er mwyn adrodd yn ôl i'r grŵp gorchwyl a gorffen.

Bydd y meysydd allweddol y bydd angen i'r grŵp gorchwyl a gorffen fynd i'r afael â nhw/eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu fel a ganlyn:

- Yr amserlen ar gyfer cyflawni cyfleoedd prydlesu presennol ac yn y dyfodol Proses brydlesu Ystad y Goron a'r map llwybr gwynt ar y môr.
- Llif o gyfleoedd buddsoddi – cais datblygwyr sy'n cynnig am brydlesau. Bydd hyn yn llywio'r cynllun gweithredu ar gyfer maint cyfle economaidd Cymru.
- Gofynion datblygwyr, yn enwedig mewn perthynas â phorthladdoedd a chadwyn gyflenwi.
- Gofynion o ran buddsoddi mewn porthladdoedd a'u datblygu er mwyn sicrhau cyfle buddsoddi.
- Sgiliau a gofynion y gweithlu.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn darparu canfyddiadau interim ym mis Mawrth ac yn cwblhau erbyn mis Mai 2025 i sicrhau bod ein cynllun yn barod ar gyfer datblygwyr buddugol rownd prydlesu 5 ar gyfer y Moroedd Celtaidd ac ar gyfer y cyfleoedd gwynt sefydlog yng Ngogledd Cymru y dylid eu datblygu erbyn 2030.

Bydd yr allbynnau o'r grŵp gorchwyl a gorffen yn cael eu datblygu gan roi ystyriaeth ddyledus i bolisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n datblygu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Strategaeth Ddiwydiannol y DU, Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru a gweithredu strategaethau o dan arweiniad y sector fel y Cynllun Twf Diwydiannol gwynt ar y môr.

Oherwydd sensitifrwydd masnachol y deunydd i'w drafod yn y grŵp ni fyddwn yn cyhoeddi cofnodion o'r grŵp. Bydd yr aelodau yn parchu natur gyfrinachol unrhyw drafodaethau. Dim ond allbynnau'r cynllun gweithredu rydym yn bwriadu eu cyhoeddi. Bydd unrhyw allbynnau cyhoeddedig eraill gan y grŵp yn cael eu cytuno gyda holl aelodau'r grŵp.

## Aelodaeth

Nodir aelodaeth y grŵp gorchwyl a gorffen isod. Byddwn dim ond yn derbyn dirprwyon os cytunir ar hyn ymlaen llaw gyda thîm yr ysgrifenyddiaeth.

### Cydlynydd grŵp Gorchwyl a Gorffen

- Tim Pick
  Eiriolwr Gwynt ar y Môr y DU.

### Arweinydd sector y diwydiant Adnewyddadwy

- **Kerry Hayes**
  Cyfarwyddwr Portffolio Grŵp Gwynt ar y Môr Simply Blue.
- Ajai Ahluwalia
  Pennaeth Cadwyn Gyflenwi RenewableUK.

### Porthladdoedd sy'n arwain y sector

- Tom Sawyer
  Prif Swyddog Gweithredol porthladd Aberdaugleddau.
- Ashley Curnow yn cynrychioli Henrik Pedersen – Prif Swyddog Gweithredol ABP.

### Arweinwyr y Sector Diwydiant a'r gadwyn gyflenwi

- Nick Revell, Rheolwr Gyfarwyddwr
  Ledwood Manufacturing
- Jen Baxter
  Prif Swyddog Gweithredol Diwydiant Cymru

### Arweinwyr y Sector Sgiliau

- Paul Flanagan
  Pennaeth Coleg Llandrillo.
- Rebecca Williams
  Cyfarwyddwr y Gwledydd Datganoledig – Ystad y Goron.
- Luciana Ciubotariu
  Prif Swyddog Gweithredol Porthladd Rhydd Celtaidd.
- Dr Rhian-Mari Thomas
  Prif Swyddog Gweithredol Green Finance Institute.
- Julian Lesley
  Prif Beiriannydd, Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni.
- David Tudor
  Cadeirydd Grŵp Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru.
- Liz Dunn
  Partner Burges Salmon.

## Gweinyddu

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cael cefnogaeth gan swyddogion o bob rhan o'r llywodraeth gan gynnwys, is-adrannau ynni a'r economi, cynllunio a chydsynio morol, cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddfa Cymru.

Bydd y grŵp yn ceisio cyfarfod bob pythefnos drwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar Teams.



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, LIC52493, ISBN digidol 978-1-80633-068-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg